

HYSBYSIAD PWYSIG I BRESWYLWYR A MANWERTHWYR



GWYBODAETH AM Y DIGWYDDIAD A CHAU FFYRDD

LLEOLIAD: Cardiff Road, Twyn Road, Castle Street (tua'r gogledd yn unig), Lôn-y-Twyn, Canolfan Siopa Cwrt y Castell a maes parcio'r Twyn

ORIAU AGOR: 9.00am - 5.00pm ar 3 a 4 Medi gyda Phrif Lwyfan Cerddoriaeth Maes Parcio'r Twyn yn aros ar agor tan 8pm ar ddydd Sadwrn 3 Medi yn unig.

Trosolwg o'r Digwyddiad: Nid yw Gŵyl y Caws Mawr yn gallu digwydd yn ei fformat arferol eleni oherwydd y gwaith datblygu sy'n digwydd yng Nghastell Caerffili. Mae digwyddiad llai yn cael ei gynnal yng nghanol y dref yn unig a bydd yn ŵyl ar thema cerddoriaeth. Bydd y digwyddiad yn gartref i bedair ardal gerddoriaeth ledled canol y dref, gan gynnwys prif lwyfan cerddoriaeth ym Maes Parcio'r Twyn. Bydd cymysgedd o stondinau bwyd a chreffft a chonhesiynau bwyd a diod ledled safle'r digwyddiad, ynghyd â sesiynau cerddoriaeth rhyngweithiol, gweithdai crefft ac ychydig o reidiau ffair hwyl bach.

Parthau Alcohol - Ledled canol y dref bydd parthau yfed dynodedig. Mae disgwyl y bydd busnesau lletygarwch lleol yn ymestyn eu mannau eistedd awyr agored ac yn ffurfio'r parthau yfed dynodedig yn bennaf. Bydd Maes Parcio'r Twyn hefyd yn darparu ar gyfer nifer o gonsesiynau bwyd a bar ac yn ffurfio canolbwynt canolog y digwyddiad. Ar y ddau ddiwrnod am 4.30pm, bydd archebion olaf yn cael eu gwneud ar gyfer y parthau yfed awyr agored a bydd yr holl dyrfaoedd yn cael eu gwasgaru i'r lleoliadau lletygarwch neu oddi ar y safle am 5.00pm. Ddydd Sadwrn yn unig, bydd yr ardal yfed o fewn Maes Parcio'r Twyn yn aros ar agor tan 8.00pm, gyda'r archebion olaf am 7.30pm. Bydd yr holl alcohol sy'n cael ei yfed yn mhob parth mewn gwylrau plastig yn unig. Bydd lefelau sain rhesymol yn cael eu cytuno a'u monitro ar y diwrnod yn dilyn cyngor gan Dim Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Diogelwch ar y Safle - Bydd presenoldeb diogelwch ar y safle drwy gydol y digwyddiad. Bydd gwardodwr diogelwch yn cael ei leoli wrth bob mynedfa i ganol y dref i sicrhau nad oes unrhyw alcohol yn cael ei gludo i safle'r digwyddiad nac yn cael ei yfed y tu allan i'r parthau yfed dynodedig. Bydd gan bob parth yfed warchodwr diogelwch penodedig.

Lefelau Sŵn - Bydd tri pharth cerddoriaeth a fydd yn cynnwys pabell fach gydag artistiaid unigol neu ddeuawdau a system sain lefel isel gyda meicroffon. Bydd prif lwyfan ym Maes Parcio'r Twyn a fydd yn gartref i fandiau mwy ac a fydd yn cynnwys system sain lawn.

Cau Ffyrrd a Systemau Traffig: Bydd Cardiff Road, Twyn Road, Lôn-y-Twyn a Castle Street (tua'r gogledd yn unig) ar gau o 10.00pm ar 2.9.22 tan 10.00pm ar 4.9.22. Tra bydd y ffyrdd ar gau, ni fydd y system unffordd yn St Fagans Street ar waith rhwng y cyffyrdd â Bradford Street a Cardiff Road. Bydd rhaid i gerbydau droi i'r chwith wrth yrru o St Fagans Street i Bradford Street.

Mynediad i fanwerthwyr: Yn achos manwerthwyr yn y rhan o Cardiff Road a fydd ar gau, sydd heb fynediad i'r lôn gefn, dylen nhw drefnu derbyn nwyddau sydd eu hangen ar gyfer penwythnos y digwyddiad cyn 10.00pm ar 2.9.22 neu rhwng 4.30am a 7.00am ar 3.9.22 a 4.9.22. Yn achos manwerthwyr yn St Fagans Street sydd â lle parcio/garej y tu cefn i'w heiddo yn Park Lane, byddan nhw'n cael tocyn er mwyn cael mynediad yn ystod y digwyddiad. Bydd modd parcio yn Ysgol y Twyn yn ystod oriau agor y digwyddiad ar bob diwrnod, os oes angen ac os oes ganddyn nhw docyn mynediad. Yn achos manwerthwyr a staff y Llyfrgell sy'n cael defnyddio'r maes parcio y tu ôl i Gymdeithas Adeiladu'r Principality a Llyfrgell Caerffili, mae modd gwneud cais am docyn mynediad drwy gysylltu â digwyddiadau@caerffili.gov.uk neu 07876 358074.

Maes parcio Sports Direct a gwasanaeth dosbarthu Iceland:

Ni fydd y cyhoedd yn cael mynd i'r maes parcio. Yn ystod y digwyddiad, bydd stiward yn cadw golwg ar y bolardiau gollwng cloadwy rhwng Windsor Street a maes parcio Sports Direct/

Iceland. Bydd angen i dacsis gasglu eu teithwyr o ddiwedd Lôn Drefol Gogledd Windsor Street. Gall deiliaid allwedd, rheolwyr a gweithwyr sifftiau cynnar Iceland a Sports Direct gael mynediad i'r maes parcio o Cardiff Road rhwng 4.30am a 7.00am ar 3.9.22 a 4.9.22. Ar ôl yr amseroedd hyn, bydd cerbydau'n cael gadael maes parcio'r siop ar hyd Lôn Drefol Gogledd Windsor Street yn unig. Dylai pob aelod arall o'r staff barcio mewn meysydd parcio eraill yn yr ardal neu ddefnyddio'r lleoedd a fydd ar gael yn Ysgol y Twyn. Bydd tocynnau'n cael eu rhoi i Sports Direct ac Iceland ar gyfer yr ysgol hon. Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau yn ystod y diwrnod, ffoniwch 07876 358074 i siarad â'r swyddog digwyddiadau ar y safle.

Mynediad i breswylwyr: Er mwyn hwyluso taith ddiogel i gerbydau dosbarthu nwyddau Iceland a Sports Direct ar hyd Lôn Drefol Gogledd Windsor Street, bydd gofyn i breswylwyr gadw'r lôn hon yn rhydd o gerbydau yn ystod cyfnod y digwyddiad. Bydd aros a llwytho yn y lôn hon yn cael eu gwahardd rhwng 5.00pm ar 2.9.22 a 10.00pm ar 4.9.22. Yn achos preswylwyr yn St Fagans Street sydd â lle parcio/garej y tu cefn i'w heiddo yn Park Lane, byddan nhw'n cael tocyn er mwyn cael mynediad yn ystod y digwyddiad. Bydd modd parcio yn Ysgol y Twyn yn ystod oriau agor y digwyddiad ar bob diwrnod, os oes angen.

Lôn y Twyn – Ardal Cau Ffordd Newydd: Bydd ffordd Lôn y Twyn ar gau o 10.00pm ar 2.9.22 tan 10.00pm ar 4.9.22 ar gyfer nifer o reidiau ffair hwyl i blant a bydd aros a llwytho yn y lôn hon yn cael eu gwahardd. Er mwyn hwyluso digwyddiad diogel, bydd rhaid i drigolion ac adwerthwyr gadw'r ffordd hon a'r holl feysydd parcio oddi ar y ffordd hon yn glir o gerbydau. Lle mae cerbydau wedi'u parcio yn y lôn gefn o East View i Lôn y Twyn, y cyngor yw parcio pob cerbyd i adael drwy East View. Ni fydd mynediad i Lôn y Twyn o'r lôn hon yn ystod y cyfnod cau. Os mae'r adwerthwyr hynny sydd â llefydd parcio ar Lôn y Twyn yn methu dod o hyd i lefydd parcio eraill, mae maes parcio Ysgol y Twyn yn gallu cael ei ddefnyddio ar gyfer parcio yn ystod oriau agor y digwyddiad bob dydd os oes angen. I wneud cais am docynnau mynediad, cysylltwch â digwyddiadau@caerffili.gov.uk / 07876 358074.

Taxis: Ni fydd taxis yn cael mynd ar hyd y ffyrdd a fydd ar gau. Byddwch cystal â threfnu safleoedd casglu a gollwng amgen.

Ilwybrau a safleoedd bysiau: Bydd y safleoedd bysiau, a fydd wedi eu heffeithio tra bydd y ffyrdd ar gau, yn cael eu symud i'r brif gyfnewidfa a bydd llwybr bysiau dros dro ar waith ar hyd Stryd Clive, Ludlow Street a Crescent Road.

Diolch am eich amser a'ch cydweithrediad yn ystod y digwyddiad hwn.

I wneud ymholiadau cyffredinol, cysylltwch â **Chanolfan Ymwelwyr Caerffili** ar 029 2088 0011 / CroesoCaerffili@caerffili.gov.uk.

Mynnwch wybod y diweddaraf am yr hyn sy'n digwydd ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.

Evch i https://public.govdelivery.com/accounts/UKCAERPHILLY_CY/subscribe/new a thanysgrifio heddiw!



Tim Caerffili
Yn Well gyda'n Gilydd

I gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau, dilynwch Croeso Caerffili ar Twitter, Instagram a Facebook. [visitcaerphilly](https://www.visitcaerphilly.com/cy/events/)

Gwybodaeth am y digwyddiad: www.visitcaerphilly.com/cy/events/